




Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

**Pecyn Cyflwyno ar gyfer Aelodau Bwrdd
Diogelu Oedolion Gogledd Cymru**



Rheolaeth Dogfen

Cadarnhawyd gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd

Cymru:

Dyddiad Adolygu:

Cynnwys

Croeso

- 1.** Cefndir
- 2.** Swyddogaethau'r Bwrdd
- 3.** Cyfrifoldebau Cyffredinol y Bwrdd
- 4.** Strwythur
- 5.** Cynllun Busnes Strategol y Bwrdd
- 6.** Cylch Gorchwyl y Bwrdd Diogelu Oedolion
- 7.** Aelodaeth Asiantaeth
- 8.** Cyfrifoldebau Aelodau
- 9.** Datganiad Cyfrinachedd

Croeso

Croeso i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC)

Nod y pecyn cyflwyno hwn yw darparu gwybodaeth hanfodol i'ch cynorthwyo chi â'ch gwaith a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o'r Bwrdd.

Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu eraill i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno ymagwedd partneriaeth effeithiol a chadarn i ddiogelu.

Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw ei fod yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a phob sefydliad wneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth.

Mae Aelodau'r Bwrdd yn chwarae rôl hanfodol ar ran eu sefydliadau wrth ddiogelu oedolion.

Gobeithiwn y bydd y pecyn hwn o ddefnydd i chi ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.

Neil Ayling
Cadeirydd
Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

1. Cefndir

Yng Ngogledd Cymru mae gennym Fwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol, GIG, yr Heddlu ac asiantaethau eraill. Rydym yn trin achosion o gam-drin a amheuir yn ddifrifol iawn ac mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio'n agos, gan ddefnyddio'r un polisiau a gweithdrefnau, i sicrhau bod pob achos o gam-drin a amheuir yn cael ei ymchwilio yn llawn a bod oedolion gydag anghenion gofal a chymorth yn gallu amddiffyn eu hunain rhag niwed. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu egwyddorion "Gwneud Diogelu yn Bersonol" sydd bellach wedi'u cynnwys o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion yw:

- a. amddiffyn oedolion o fewn ei ardal sydd -
 - i. angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio), ac
 - ii. yn profi, neu mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod, a
- b. atal yr oedolion hynny yn yr ardal a nodwyd ym mharagraff (a) (i) rhag bod mewn risg o gam-drin neu esgeulustod.

Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei lywodraethu gan yr egwyddorion canlynol:

- Cefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth i gyflawni lles.
- Sicrhau fod gan bobl hawl gyfartal i leisio eu barn am y gefnogaeth y maent yn ei derbyn.
- Gwasanaethau i hyrwyddo'r gwaith i atal anghenion rhag gwaethygu a sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg briodol.
- Yr holl gyrff sy'n gyfrifol am waith diogelu oedolion i gydweithio'n effeithiol â'i gilydd. (Rhan 7 y Ddeddf – Cydweithio i Ddiogelu Pobl).

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bellach wedi cynnwys diogelu oedolion mewn deddfwriaeth. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion (Bwrdd Diogelu Oedolion) yn eu hardal, gan roi sail glir i'r Byrddau hyn o fewn y gyfraith am y tro cyntaf.

2. Swyddogaethau'r Bwrdd:

Yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), mae un set o reoliadau ar gyfer swyddogaethau a gweithdrefnau'r ddau Fwrdd Diogelu (Oedolion a Phlant). Mae hyn yn unol â'r ymrwymiad i ddarparu fframwaith i wella trefniadau diogelu i bawb a bod unrhyw rwystr yn seiliedig ar oedran yn cael ei ddiddymu.

Mae'n cydnabod y bydd Byrddau yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd, dylai trefniadau ar gyfer y Byrddau ganiatáu rhannu, cyfnewid a chydweithio ar faterion sydd o bryder i bawb, a lle bo'n bosibl dylid cefnogi hyn drwy swyddogaethau a gweithdrefnau cyffredin.

Dylai Byrddau Diogelu Oedolion ddatblygu cynlluniau ar y cyd ar gyfer diogelu, gan weithio gyda phobl leol i benderfynu ar y ffordd orau i amddiffyn oedolion mewn sefyllfaoedd bregus. Mae gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru gynllun busnes sy'n amlinellu'r gwaith y mae'r Bwrdd yn bwriadu ei wneud dros y flwyddyn nesaf.

Cyfrannu at sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol yn cael eu monitro ac yn parhau i ateb y gofyn, drwy ymgysylltu â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu eraill. Cyfrannu hefyd at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i gydlynu'r hyn sy'n cael ei wneud gan bartneriaid a chyrrff sy'n cael eu cynrychioli ar y Bwrdd, at ddibenion amddiffyn oedolion a phlant ac atal camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed i oedolion a phlant o fewn ardal y Bwrdd.

Codi ymwybyddiaeth ledled ardal y Bwrdd o amcanion y Bwrdd i amddiffyn ac atal oedolion rhag bod mewn risg o gam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed, a darparu gwybodaeth ar sut y gellir cyflawni hyn ledled yr ardal;

Adolygu effeithiolrwydd y mesurau a gymerir gan y partneriaid a'r cyrrff hynny a gynrychiolir ar y Bwrdd, a gan gyrff eraill gyda chyfrifoldebau diogelu o fewn ardal y Bwrdd, naill ai'n unigol neu ar y cyd, i weithredu amcanion y Bwrdd a gwneud unrhyw argymhelliad, fel bo'n briodol, i'r cyrrff hynny yng ngoleuni adolygiad o'r fath;

Ymgymryd ag archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau yn ôl y galw yn unol â'i amcanion;

Adolygu perfformiad y Bwrdd, a'i bartneriaid a'r cyrrff a gynrychiolir arno, wrth gyflawni ei amcanion;

3. Cyfrifoldebau Cyffredinol:

Mae gan y Bwrdd Diogelu hefyd gyfrifoldebau cyffredinol gan gynnwys:-

Sicrwydd. Mae angen i'r Bwrdd sicrhau ei hun bod trefniadau diogelu lleol yn eu lle fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chanllawiau statudol. Bod arferion diogelu yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar y canlyniadau a bod yr arferion hynny'n gwella'n gyson ac yn gwella ansawdd bywyd oedolion yn yr ardal.

Atebolrwydd. Dylai'r Bwrdd ddal ei hun ac asiantaethau eraill i gyfrif er mwyn sicrhau bod gwasanaethau diogelu yn effeithiol ac yn diogelu'r oedolion mwyaf diamddiffyn yng Ngogledd Cymru.

Herio. Dylai'r Bwrdd allu herio aelodau a meysydd o arfer diogelu ar draws y rhanbarth er mwyn gwella gwasanaethau a phrofiad y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalmwr mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth, er mwyn iddynt aros yn ddiogel.

Goruchwyliaeth Strategol. Dylai'r Bwrdd ddarparu goruchwyliaeth strategol o Ddiogelu Oedolion yng Ngogledd Cymru yn ogystal â chysylltu â'r gwaith a wnaed gan Fyrddau eraill ar draws y rhanbarth.

Arweinyddiaeth. Dylai'r Bwrdd ddarparu arweinyddiaeth aml-asiantaeth i sicrhau bod oedolion yng Ngogledd Cymru yn cael eu diogelu yn briodol drwy atal camdriniaeth ac esgeulustod, hyrwyddo lles a diogelwch ac ymateb yn effeithiol i achosion o gamdriniaeth ac esgeulustod.


Ansawdd a Pherfformiad. Sicrhau bod oedolion diamddiffyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, comisiynu neu'n gweithredu o fewn ardal y Bwrdd, yn ddiogel a bod yr ofal a'r driniaeth yn addas ar gyfer eu anghenion a nad ydynt yn profi unrhyw gamdriniaeth. Monitro'r gwaith yn ymwneud â diogelu o fewn Gogledd Cymru a cheisio gwella ansawdd y gwasanaethau diogelu ac atal o fewn y rhanbarth.

Atal. Gweithio gydag asiantaethau ar draws Gogledd Cymru i atal camdriniaeth o oedolion ag anghenion gofal a chymorth o fewn y rhanbarth.

Cyfathrebu / Ymgysylltu a Chodi Ymwybyddiaeth. Dylai'r Bwrdd godi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o gamdriniaeth ac esgeulustod er mwyn sicrhau bod cymunedau a sefydliadau yn gwybod sut i ymateb yn effeithiol ac yn glir.

Mae gan y Bwrdd Diogelu Oedolion gylch gorchwyl sy'n nodi amcanion y Bwrdd a disgwyliadau Aelodau'r Bwrdd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys manylion llawn y cylch gorchwyl.

4. Strwythur



Mae gan y Bwrdd Diogelu'r Is-Grwpiau canlynol:-

1. Adolygiad Ymarfer Diogelu Oedolion
2. 3 x Grŵp Darparu Ymarfer Diogelu Oedolion (Conwy a Sir Ddinbych, Gwynedd Ynys Môn, Sir y Fflint a Wrecsam)
3. Polisiâu a Gweithdrefnau
4. Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu (Cyd-Grŵp gyda Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru)

5. Cynllun Busnes:

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi llunio cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn i ddod – gweler y cynllun hwn ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru: www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

6. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Diogelu Oedolion

Teitl: Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC)

Atebolrwydd

- Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru
- BIPBC
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Byrddau Gwasanaeth Lleol Gogledd Cymru
- Mae pob sefydliad partner yn cadw llinellau presennol o atebolrwydd i'r swyddog arweiniol / corff cynrychioli dynodedig o fewn pob sefydliad partner.

Sut mae atebolrwydd yn cael ei ddangos

Drwy adroddiad blynyddol i'r:

- Pwyllgor Archwilio / Cabinet pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru
- Byrddau Gwasanaethau Lleol Gogledd Cymru
- Asiantaethau Aelodau'r Bwrdd
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Pwrpas

Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn rhagweithiol wrth amddiffyn, heb ystyried lleoliad, y rhai sydd yn neu sydd mewn perygl o brofi camdriniaeth ac esgeulustod ac nid oes ganddynt y gallu i amddiffyn eu hunain. Byddwn hefyd yn mynd ati i atal oedolion yng Ngogledd Cymru sydd ag anghenion gofal a chymorth a heb y gallu i ddiogelu eu hunain, rhag dioddef cam-drin ac esgeulustod.

Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn gweithio i gyflawni'r amcanionstatudol sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2, Adran 135 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014.

Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn darparu cyfeiriad strategol rhanbarthol er mwyn diogelu oedolion mewn perygl sydd wedi profi camdriniaeth neu esgeulustod.

Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn dilyn pob trywydd er mwyn cyflawni ei amcanion, gan gynnwys sicrhau parodrwydd yr holl asiantaethau partner i gyflawni uchelgeisiau'r Bwrdd, gan wneud ataliad yn fusnes i bawb a diogelu'r rhai mwyaf diamddiffyn.

Swyddogaethau

Sicrhau gweithrediad ei weledigaeth strategol

- a) Datblygu cynllun strategol
- b) Cytuno ar fecanweithiau i sicrhau effeithiolrwydd y cynllun strategol
- c) Cytuno ar gynllun busnes blynyddol
- d) Adolygu cynllun strategol Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn flynyddol, cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod a sicrhau bod cynlluniau yn adlewyrchu datblygiadau cenedlaethol a lleol.
- e) Llunio adroddiad blynyddol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Sicrhau bod gwaith a gweithrediad y Bwrdd yn parchu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol y gymuned y mae'n ei wasanaethu, a'i fod yn unol â gofynion rheoliadol penodol Llywodraeth Cymru a darpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn unol ag angen.

Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru, yn yr un modd â'r Grwpiau Darparu Diogelu Isranbarthol, yn cymryd camau gyda'r nod o fagu perthynas o gydymddiriedaeth a dealltwriaeth ymysg yr unigolion neu'r cyrff a gynrychiolir gan y Bwrdd mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles oedolion sydd mewn perygl ar draws Gogledd Cymru.

Drwy Grŵp Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chyfranogi Gogledd Cymru:

Cymryd camau gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth ledled ardal y Bwrdd o'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion mewn perygl a darparu gwybodaeth am sut y gellir cyflawni hyn.

Lledaenu gwybodaeth am arfer orau o ran diogelwch a hyrwyddo lles oedolion mewn perygl ymysg y cyrff cynrychioliadol ac unigolion eraill y mae'r Bwrdd Rhanbarthol yn ystyried sy'n briodol.

Drwy Grŵp Gweithdrefnau a Protocolau Gogledd Cymru;

Datblygu gweithdrefnau er mwyn cydlynu'r hyn sy'n cael ei wneud gan bob corff cynrychioliadol i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion mewn perygl o fewn ardal y Bwrdd, gan gynnwys gweithdrefnau'n ymwneud â rhannu gwybodaeth.

Cadarnhau gweithdrefnau neu brotocolau newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd gan Grwpiau Gweithdrefnau a Protocolau rhanbarthol neu genedlaethol.

Mynd i'r afael ag unrhyw fater rhanbarthol a godir gan y Grwpiau Darparu Lleol mewn perthynas ag effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd gan bob unigolyn neu gorff sy'n cael eu cynrychioli ar y Bwrdd, i gydlynu'r hyn maent yn ei wneud at ddibenion diogelu a hyrwyddo lles oedolion mewn perygl o fewn ardal y Bwrdd, a gwneud yr hyn mae'n ystyried sy'n briodol yng ngoleuni adolygiad o'r fath.

Drwy Grŵp Adolygu Ymarfer Diogelu Oedolion:

Rheoli'r broses Adolygu Ymarfer Oedolion, ymgymryd ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion a monitro unrhyw gynllun gweithredu sy'n codi.

Cynnig, gwneud cais neu gymeradwyo cynigion i ymchwilio i agweddau o ddiogelu neu les oedolion mewn perygl, a sicrhau ymwybyddiaeth o unrhyw waith ymchwil, yn ymwneud â diogelwch a lles oedolion, sydd wedi'i gwblhau neu ar waith ar hyn o bryd.

Drwy Grŵp Gweithlu a Hyfforddi Gogledd Cymru:

Adolygu anghenion hyfforddi'r rheiny sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd gyda'r bwriad o ganfod gweithgareddau hyfforddi i gynorthwyo â diogelu a hyrwyddo lles oedolion mewn perygl yn ardal y Bwrdd.

Darparu hyfforddiant i gynorthwyo â diogelu a hyrwyddo lles oedolion yn ardal y Bwrdd.

Cydweithio â Byrddau Diogelu eraill (boed hynny yng Nghymru neu'n Lloegr) ac unrhyw gyrff tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon y mae'r Bwrdd yn credu fydd yn gydfuddiannol.

Ceisio cyngor neu wybodaeth lle bo'r Bwrdd yn ystyried hynny yn ddymunol at ddibenion unrhyw un o'r swyddogaethau uchod.

Cynrychioli a hyrwyddo buddiannau Diogelu Gogledd Cymru ar lefel Genedlaethol a Rhanbarthol (CLLLC, LIC, AGGC, Bwrdd Diogelu Cenedlaethol).

Ymgymryd â gweithdrefn hunanasesu a gwella blynyddol.

Adrodd

Darparu adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i Fyrddau partneriaethau strategol eraill gyda chyfrifoldebau diogelu, gan gynnwys Byrddau Gwasanaeth Lleol, Pwyllgor Archwilio pob Awdurdod Lleol a strwythurau llywodraethu asiantaethau aelodau.

Bodloni gofynion adrodd cyrff cenedlaethol a rhanbarthol e.e. Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol.

Adrodd pryderon i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol / Arolygiaeth Gofal Cymru / Llywodraeth Cymru, fel bo'n briodol, ynglŷn â materion yn ymwneud â chyfraniad aelodau / ymrwymiad / arfer diogelu nad oes modd i Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru eu datrys.

Sianeli Cyfathrebu

Cyfathrebu â grwpiau isranbarthol ar flaenoriaethau strategol.

Sicrhau cyfathrebu effeithiol â grwpiau rhanbarthol perthnasol eraill.

Cyfathrebu â threfniadau Byrddau Diogelu Oedolion rhanbarthol eraill yng Nghymru fel bo'n briodol a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol.

Cymorth Cyfreithiol

I'w ddarparu gan yr awdurdod cynnal ar gyfer y Bwrdd.

Pob partner i enwebu pwynt cyswllt cyfreithiol ar gyfer cyngor penodol mewn perthynas â'i asiantaeth.

Gweinyddu

Bydd yr Uned Cymorth Busnes yn cofnodi cyfarfodydd Bwrdd.

Darperir cefnogaeth arall ar gyfer y Bwrdd gan yr Uned Cymorth Busnes.

Amllder Cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob deufis a bydd dyddiadau'r cyfarfodydd yn cael eu gosod ddim hwyrach na mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ganlynol. <0}

Cynhelir diwrnod hunanasesu a chynllunio bob blwyddyn.

Trefnir cyfarfodydd ychwanegol fel sy'n ofynnol

Cworwm

Ystyrir cyfarfodydd fel cworwm os yw cynrychiolydd yn bresennol o'r asiantaethau canlynol:

- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Awdurdod Lleol
- BIPBC
- Heddlu GC
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol / Cwmni Adsefydlu Cymunedol

Fodd bynnag, gall cyfarfodydd fwrw ymlaen yn absenoldeb cworwm llawn yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.

Caniateir dirprwyon gwybodus priodol yn dilyn caniatâd y Cadeirydd ymlaen llaw.

Gwneud Penderfyniadau

Gwnaed gan fwyafrif.

Bydd pleidlais wedi'i rannu yn mynd i'r Cadeirydd i gael penderfyniad terfynol.

Papurau

Cofnodion, rhaglenni ac adroddiadau:

Cofnodion Cyfarfodydd

Cofnodion a rhaglenni i gael eu dosbarthu 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod nesaf.

Bydd y cofnodion wedi'u cyfyngu i aelodau yn unig a bydd yn rhaid cael caniatâd penodol gan y Cadeirydd i'w rhannu.

Mae'r holl gofnodion a'r data yn gyfrinachol.

Cyfrinachedd

Cynhelir y cyfarfod yn breifat.

Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau gael eu hawdurdodi gan y Cadeirydd.

Rheoliadau a Rheolaethau

Yn ddarostyngedig i adolygiad ac archwiliad Llywodraeth Cymru.

Diwygiadau i Gylch Gorchwyl

Dim ond gyda chymeradwyaeth y Bwrdd.

AELODAETH Y BWRDD

Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Cadeirydd: Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint)

Is-gadeirydd: Cyfarwyddwr Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Cyngor Sir Ynys Môn - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu

Cyngor Sir Ddinbych - Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Cyngor Sir y Fflint - Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion

Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Arbenigwr Diogelu, Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gogledd Cymru - Pennaeth Yr Uned Brawf Leol

Heddlu Gogledd Cymru - Ditectif Uwcharolygydd / Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Rheolwr Tîm Atal Tanau Bwriadol ac Addysg Busnes

Cyngor Gwynedd - Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Iechyd a Lles Oedolion

Cynrychiolydd o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Prif Weithredwr Fforwm Gofal Cymru

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi - Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd

8. Cyfrifoldebau Aelodau:

Cadeirydd

Bydd cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod adroddiad blynyddol y Bwrdd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol ar wefan y Bwrdd Diogelu Oedolion. Cyfrifoldeb yr holl asiantaethau partner yw cyflwyno'r adroddiad blynyddol i'w uwch dimau rheoli a chyrrff sy'n gwneud penderfyniadau yn ystod y fforwm llywodraethu nesaf o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad.

Bydd cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Busnes Blynyddol y Bwrdd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

Cynrychiolaeth Aelodau

Mae angen cynrychiolaeth ar lefel Cyfarwyddwr neu gyfwerth i gynrychioli asiantaeth, sefydliad neu grŵp cynrychioladol o bobl gydag awdurdod llawn. Wrth wneud hynny, i godi materion ar eu rhan, cyfrannu at drafodaethau a dadleuon a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo yn ôl i'r grŵp, asiantaeth neu sefydliad cynrychiadol hwnnw.

Sicrhau bod y grŵp, asiantaeth neu sefydliad cynrychiadol y mae'r Aelod yn ei gynrychioli yn arddangos ymrwymiad llwyr i ddiogelu oedolion a sefydlu arfer diogel yn ei grŵp, asiantaeth neu sefydliad cynrychiadol.

Mae'n bwysig bod y Bwrdd Diogelu yn gweithio o fewn y system gyfan sydd yn gysylltiedig â Diogelu Oedolion, yn rhannu arferion da a datblygu dull cydlynol â Byrddau ac ardaloedd eraill er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithiol.

Rôl y cynrychiolwyr yw canfod materion sydd o bwys i lwyddiant y datblygiadau diogelu lleol, cynrychioli safbwyntiau a blaenoriaethau'r Bwrdd ac adrodd yn ôl ar gerrig milltir a chanlyniadau.

Gwerthoedd

Cynnal egwyddorion ac amcanion y Bwrdd fel y nodir yn y cylch gorchwyl.

Presenoldeb

Mynychu pob cyfarfod Bwrdd neu drefnu i gynrychiolydd priodol weithredu ar eu rhan (unigolyn sy'n gallu gweithredu ag awdurdod llawn) ym mhob cyfarfod nad ydynt yn gallu eu mynychu.

Adroddiad Blynyddol

Gwneud cyfraniad, fel bo'n briodol, i adroddiad blynyddol y Bwrdd

9. Datganiad Cyfrinachedd

Mae'r Bwrdd hwn yn ymgynnull dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a bydd yn cydymffurfio â chyfle cyfartal a deddfwriaeth a chanllawiau gwrth-wahaniaethol. Mae'n rhaid i bawb sy'n mynychu barchu cyfrinachedd y materion sy'n cael eu trafod yn enwedig pan fo enghreifftiau o achosion yn cael eu trafod: mae'r materion hyn yn gyfrinachol ac ni ddylid datgelu'r materion hyn i eraill heb ganiatâd y Cadeirydd.

Nodir, er mwyn caniatáu ar gyfer dysgu ehangach, bod rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei thrafod yn ystod cyfarfod y Bwrdd gael ei rhannu o fewn cymuned ehangach ond rhaid cadw anhysbysrwydd mewn perthynas ag enwau unigolion, gwasanaethau neu asiantaethau. Pan fo Aelodau'r Bwrdd yn ansicr o ran beth y gellir ei rannu, mae'n rhaid penderfynu ar hyn yn ystod cyfarfod y Bwrdd a chytuno yn y cofnodion.

Cydnabyddir, pan fo materion yn ymwneud ag atebolrwydd clinigol a phroffesiynol, y bydd yn rhaid i Aelodau godi hyn o fewn yr asiantaethau y maent yn eu cynrychioli. Lle bo'r sefyllfa hon yn codi, bydd y mater yn cael ei drafod a'i gytuno gan y Bwrdd fel rhan o fusnes y cyfarfod.